

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Y Pasg: Y Daith Fawr

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

Porthi'r Pum Mil	Iesu'r Meddyg
Gideon - yn ymladd dros Dduw	Dafydd: bugail a brenin
Y Nadolig	Elias: negesydd Duw
Teulu Newydd Ruth	Nadolig: Goleuni'r Byd
Moses - Y Dywysoges a'r Baban	Jona: Proffwyd Anfodlon
Pasg – Iesu'r Brenin	Iesu'n croesawu pawb
Samuel – Duw yn siarad â Samuel	Y Pasg: y daith fawr
Pentecost – Newyddion Da lawn	Jeremeia: proffwyd mewn twll
Daniel – yn ffau'r Llewod	Paul: yn cyfarfod Iesu
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas	Moses: Y Deg Gorchymyn
Dechrau'r byd: Hanes y Creu	Iesu: y Ffrind Gorau
Iesu'n dangos ei allu	Solomon: y brenin doeth
Joseff yn yr Aifft	Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da
Y Nadolig: Rhodd Duw	Nadolig: O'r nef y daeth
Iesu: Ffrind mewn angen	Josua: yr arweinydd newydd
Moses: Gadael yr Aifft	Iesu'r athro da
Y Pasg: trwy lygaid Pedr	Y Pasg: "Gorffennwyd"
Abraham: ffrind Duw	Esther: y frenhines ddewr
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys	Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod
Y Beibl: Stori Fawr Duw	Dafydd: bardd a brenin (Salmau)

Y Pasg: Y Daith Fawr © Cyhoeddiadau'r Gair 2010

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 677 1
Argraffwyd yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Y Pasg

Tybed a oes gennych hoff olygfa yng Nghymru? Rhyw olygfa nad ydy hi byth yn eich siomi a wastad yn dal eich anadl? Mae gennym ddewis eang yng Nghymru fach. Dwi wrth fy modd yn cael golwg gyntaf ar lannau Sir Conwy a Sir Ddinbych wrth ddod dros Fynydd Hiraethog, gyda mynyddoedd Eryri i'r chwith. Mae'r olygfa hon yn creu argraff arnaf bob dro, ac er mor gyfarwydd yw'r olygfa, mae hi'n parhau'n un arbennig iawn.

Dyma fy nheimpladau wrth ddarllen a myfyrio ar hanes marwolaeth ac atgyfodiad Iesu - 'does dim ots pa mor aml byddaf yn meddwl neu'n darllen neu'n canu am aberth fy Ngwaredwr, dwi'n cael fy syfrdanu gan yr olygfa, mae bob amser yn arbennig. Felly, mae'r paratoi wedi bod yn hynod o fendithiol i mi a fy ngweddi ydy y byddwch yn profi'r un fendith wrth i chi geisio cyflwyno'r hanesion yn eich Ysgol Sul.


Mae'r sesiwn gyntaf yn olrhain hanes Iesu'n cyrraedd Jerwsalem - mewn ffordd annisgwyl iawn! Mae Iesu, er mwyn cyflawni proffwydoliaethau'r Hen Destament am y Meseia, yn ymdeithio i mewn i Jerwsalem, yn marchogaeth asyn. Mae'r tyrfaedd yn ei groesawu mewn ffordd nid yn annhebyg i'r croeso a roddwyd i Frenin buddugoliaethus. Maen nhw'n disgwyl y bydd yn gorchfygu'r Rhufeiniaid. Ond nid dyna oedd bwriad Iesu - roedd ganddo gynllun mwy na hyn hyd yn oed. Bwriad yr Iesu, a chynllun Duw ei Dad, oedd iddo roi ei fywyd yn aberth ar y groes, gan ddelio gyda phechod unwaith ac am byth, gan ei gwneud hi'n bosibl i unrhyw un ddod i berthynas â'r Duw byw.

Felly, nid yw Iesu'n treulio ei ddiwrnod cyntaf yn y brifddinas yn trefnu rhyfel yn erbyn y Rhufeiniaid; ond yn hytrach, mae'n ymweld â'r Deml, i greu helynt yno! Mae ef mor flin gyda'r arweinwyr crefyddol am godi rhwystrau rhwng y bobl â Duw.

Mae'r ail sesiwn yma'n canolbwyntio ar Atgyfodiad Iesu, fel mae Mathew yn cofnodi'r hanes, gyda'r ddwy Fair yn cyrraedd y bedd gwag yn gyntaf. Dyma ddigwyddiad a newidiodd fywydau'r disgyblion cyntaf yn llwyr, digwyddiad sy'n newid llawer o fywydau heddiw, a hynny drwy'r byd i gyd.

Yn y sesiwn olaf, ystyriwn ymateb dau arall o ddilynwyr Iesu a hwythau heb ddeall fod Iesu wedi atgyfodi. Mae eu calonnau'n llawn tristwch a dryswch wrth iddynt gerdded adref o Jerwsalem i Emaus ar ôl gweld eu Harglwydd yn cael ei groeshoelio a marw. Mae'r newid sy'n digwydd yn syfrdanol: ar ôl treulio amser yng nghwmni'r Iesu byw mae'r tristwch a'r dryswch yn diflannu - nawr, mae eu calonnau ar dân, ac maen nhw gorfod rhuthro'n ôl i Jerwsalem i rannu'r newyddion bendigedig gyda'r disgyblion eraill.

Mae hanesion y Pasg yn siŵr o fod yn gyfarwydd iawn i'r plant a'r bobl ifanc, ac am y rheswm hynny mae'n bosibl y bydd rhaid inni wneud ymdrech i gyfleu rhyfeddod yr hanesion sydd wrth galon ein ffydd. Ein gweddi wrth gyflwyno'r hanesion cyfarwydd yw y bydd yr Ysbryd Glân ar waith yn cyffwrdd â chalonau'r plant a'r bobl ifanc fel y byddant yn gweld Iesu ac wrth ei weld yn ei gymryd yn Arglwydd a Gwaredwr.



Rhestr Adnoddau

Llyfrau stori

Angylion y Pasg
Pris £4.95

Stori'r Pasg
Pris £3.95

Stori'r pasg gyda fflapiau
Pris £3.95

Stori'r Pasg - llyfr sticeri
Pris £2.95

Hanes Y Pasg: Beiblau Lliw

Beiblau Plant

'Beibl y Plant lleiaf', tud. 234-247
'Beibl Bach i Blant', Rhif 56-58
Beibl Newydd y Plant, tudalen 199 ymlaen
Beibl Newydd y Storiwr, tudalen 136-140
'Beibl Lliw y Plant', tud. 268, 276, 280
'Y Beibl i Blant mewn 365 o storïau', tud. 371-382
'Y Beibl Graffig'

Ffilmiau

2 Cdd o'r gyfres 'Animated Stories from the Bible' (Nest Entertainment) (ar gael o amazon.co.uk)-
'Worthy is the Lamb' a 'He is risen'.

Cyfres y Beibl Fideo; Tâp 5: Stori 6 a 7
Gŵr y Gwyrthiau S4C -
ar gael gan Gyngor Ysgolion Sul



Oed Meithrin – 5

Y Pasg: Y Daith Fawr



Amcanion:

- ❖ I gyflwyno hanes taith Iesu i Jerwsalem ar Sul y Palmwydd
- ❖ Hanes y Swper Olaf
- ❖ Hanes Iesu'n cyfarfod â'r disgyblion ar y ffordd i Emaus.

AMSER CHWARAE

1. Gêm deithio

Bydd angen y lluniau o Atodiad 1 (siop, ysgol, parc, llyfrgell), wedi'u gosod ar y waliau.

Edrychwch ar y lluniau gyda'r plant gan drafod yr achlysuron pan fyddant yn ymweld â'r gwahanol lefydd hyn. Anogwch bob plentyn i gyfrannu at y sgwrs. Holwch sut maent yn cyrraedd y llefydd hyn, e.e. cerdded, mewn car.

Yna, gofynnwch i bawb sefyll gyda'i gilydd yng nghanol yr ystafell. Gofynnwch i'r plant i 'deithio' i un o'r lleoliadau mewn modd penodol, e.e. 'Dwi am i bawb sgipio i'r llyfrgell'.

Ar ôl chwarae am gyfnod, holwch os oes rhywun wedi marchogaeth mul neu geffyl erioed. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl heddiw am rywun yn mynd ar daith ar gefn mul.

2. Mae'r Brenin yn dweud

Bydd angen coron syml sy'n ddigon hir i'ch pen. Byddai'n syniad i beidio â gludo'r ddau ben ond i ddefnyddio 2 glip papur, fel y gallwch osod y goron ar bennau'r plant hefyd.

Gwisgwch y goron eich hun i ddechrau, a chwaraewch 'Mae Seimon yn dweud' gan ddefnyddio'r gair 'Brenin' yn lle 'Seimon.'

Gadewch i'r plant gael tro fel Brenin hefyd. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl heddiw am Frenin arbennig iawn.

3. Chwarae tŷ

Bydd angen amrywiaeth o eitemau ar gyfer gosod bwrdd yn barod am bryd o fwyd (llieiniau bwrdd, cyllyll a ffyrc, platiau a chwpanau). Hefyd, teganau meddal.

Gofynnwch i'r plant beth sydd angen eu rhoi ar y bwrdd cyn cael pryd? Dangoswch yr eitemau iddynt a gofynnwch iddynt eich helpu i osod y bwrdd.

Rhannwch y plant yn grwpiau bychain (os oes angen), gyda'r offer, a'u hannog i osod y bwrdd er mwyn i'r teganau gael bwyd. Gadewch iddynt chwarae am gyfnod.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes am Iesu a'i ffrindiau'n cael pryd o fwyd arbennig yn ein stori heddiw.

4. Gêm gofio

Bydd angen 10 eitem gyfarwydd ar hambwrdd a lliain.

Dangoswch yr eitemau i'r plant a'u henwi fesul un. Cuddiwch yr eitemau o dan y lliain, a chodwch un eitem heb i'r plant weld. Pwy all ddyfalu'n gywir pa eitem sydd ar goll? Parhewch nes bod pob eitem wedi cael eu codi.

Canmolwch y plant am fod ganddynt gof mor dda. Trafodwch pa mor hawdd yw anghofio, gan rannu stori bersonol am anghofio.



Oed Meithrin – 5

Y Pasg: Y Daith Fawr

AMSER CHWARAE

Yn ein stori wir o'r Beibl heddiw, mae Iesu'n dweud wrth ei ffrindiau i gofio rhywbeth pwysig iawn.

5. Gêm wŷ ar lwy

Bydd angen llwy fwrdd a thaten ar gyfer pob plentyn ac un wŷ wedi'i ferwi. Hefyd, bydd angen wŷ Pasg siocled.

Dangoswch i'r plant sut i gario'r 'wŷ' o amgylch yr ystafell, cyn rhoi llwy a thaten i un plentyn. Os oes gennych ddigon o le, gallwch greu cwrs rhwystr syml, e.e. cadair i fynd o'i hamgylch, hŵp i fynd drwyddi. Gofynnwch i'r plentyn cyntaf i gerdded o amgylch y cwrs rhwystr ac yn ôl atoch heb golli'r daten, os yn bosibl.

Anogwch bawb i weiddi'n gefnogol. Gadewch i bob plentyn cael tro yn unigol cyn cael rhai o'r plant i rasio yn erbyn ei gilydd. Mae'n syniad da cael grwpiau o dri, oherwydd cewch un enillydd a dau sy'n colli! Dangoswch yr wŷ siocled i'r plant a'u hannog i sgwrsio am eu hwyau Pasg.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl am y Sul Pasg cyntaf erioed.

AMSER STORI

1. Hanes Mr Mul (Mathew 21, Marc 11, Luc 19, Ioan 12)

Bydd angen Beibl Plant addas a'r pyped mul o Atodiad 2. Neu, gallwch ddefnyddio tegan meddal asyn os oes gennych un.

Darllenwch hanes Iesu'n marchogaeth i Jerwsalem ar gefn mul, gan gadw'r pyped/tegan o'r golwg.

Yna, dywedwch wrth y plant bod gennych ymwelydd pwysig heddiw – rhywun a oedd yn y stori. Ydy'r plant yn gallu dychmygu pwy?

Dangoswch y pyped/tegan, a'i gyflwyno fel Mr Mul. Bydd Mr Mul yn sibwrdd atebion i'ch cwestiynau yn eich clust – does dim angen sgiliau 'ventriloquist' arnoch!

Ewch dros yr hanes, gan holi cwestiynau i'r mul, a'i godi i'ch clust fel petaech yn gwranddo arno, cyn adrodd yn ôl i'r plant beth oedd gan Mr Mul i'w ddweud.

Er enghraifft: Wel, helo Mr Mul. Diolch am ddod i'n gweld ni heddiw. Rwy'ti wedi cario person go arbennig ar dy gefn di. Wnei di sôn rhywfaint am dy hanes plis?

Sut wnaeth ffrindiau Iesu dy ddewis di i gario Iesu? *Be? Sefyll tu allan yn pori oeddet ti a dy fam, yn ôl eich arfer.*

Beth oedd dy fam yn meddwl ynglŷn â chael dau ddyn dieithr yn dod i dy nôl di? *Dywedodd wrthyt am fihafio, a dim cicio'n wyllt neu frathu pobl.*

Wyt ti'n brathu pobl fel arfer? *Dim ond pobl sy'n gas i ti neu sy'n gwisgo dillad pinc!*

O, gwylai di Beca, mae gen ti dop pinc heddiw. Paid â dod yn rhy agos at Mr Mul rhag ofn...



AMSER STORI

Parhewch nes eich bod wedi trafod yr hanes i gyd, gan orffen drwy holi Mr Mul beth oedd yn meddwl am y 'Brenin' a oedd yn ei farchogaeth. Mae Mr Mul wedi deall fod y Brenin Iesu'n berson arbennig iawn, iawn, ac roedd wedi mwynhau bod ar daith gydag ef.

2. Y Swper Olaf (Mathew 26, Marc 14, Luc 22)

Bydd angen lliain i'w osod ar y llawr, torth o fara gydag un dafell wedi'i thorri'n barod, gwydr gwin neu 'goblet' gydag ychydig o sudd cyrens duon ynddo. Hefyd, y pyped/tegan meddal a ddefnyddiwyd yn yr hanes y tro diwethaf.

Dangoswch y pyped/tegan, gan ofyn i'r plant beth ddywedodd Mr Mul wrthym y tro diwethaf. Esboniwch fod Iesu a'i ffrindiau wedi mynd i gael swper gyda'i gilydd ar ôl cyrraedd Jerwsalem.

Gosodwch y lliain ar y llawr, a gwahodd pawb i eistedd o'i amgylch. Adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun. Dyma'r prif bwyntiau:

- ❖ ar ôl i bawb fwynhau'r swper, cymerodd Iesu ddarn o fara, a rhoi darn bach i bawb. Os hoffech, cewch roi darn o fara i bob plentyn i'w fwyta ond ni fyddwn yn cynnig diod iddynt.
- ❖ wrth i ffrindiau Iesu fwyta, dywedodd Iesu rywbeth trist wrthynt - sef ei fod yn mynd i farw yn fuan, ac yn mynd yn ôl i'r nef i fyw gyda Duw.
- ❖ yna, cymerodd Iesu wydraid o win. Rhoddodd y gwin i'w ffrindiau i'w yfed.
- ❖ dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau ei fod am iddynt gofio amdano ar ôl iddo farw. Roedd am iddynt gael swper tebyg, gyda bara a gwin.
- ❖ doedd ffrindiau Iesu ddim yn deall beth oedd Iesu'n ei ddweud wrthynt, ond roeddent

yn drist iawn wrth feddwl fod Iesu'n mynd i farw a'u gadael.

Efallai yr hoffech ofyn i Mr Mul beth mae e'n ei feddwl wrth glywed fod Iesu'n mynd i farw; er mwyn cael yr ateb ganddo nad dyma ddiwedd y stori - a bod diwedd hapus iawn i'r stori.

3. Ar y ffordd i Emaus (Luc 24)

Bydd angen paratoi'r ddau fodel o Atodiad 3, Mr a Mrs Cleopas. Hefyd, y pyped/tegan meddal a ddefnyddiwyd yn yr hanesion blaenorol.

Dechreuwch drwy adolygu'r ddau hanes blaenorol, gyda chymorth Mr Mul. Caiff Mr Mul holi'r plant i weld beth maent yn ei gofio. Byddai'n syniad cael rhai o'r 'props' fel cliwiau i'r plant.

Cyflwynwch Mr a Mrs Cleopas (gyda'r wynebau trist yn y golwg), dau o ffrindiau Iesu. Beth mae'r plant yn sylwi wrth edrych arnynt? Mae'r ddau yn edrych yn drist iawn. Mae Iesu wedi marw – yn union fel y dywedodd. Roedd Mr a Mrs Cleopas wedi bod yn ninas Jerwsalem ac roedden nhw wedi gweld y milwyr yn cymryd Iesu, fel petai Iesu'n ddyn drwg. Yna, clywodd Mr a Mrs Cleopas bod y milwyr wedi ei ladd. Does dim rhyfedd eu bod mor drist.

Trowch y wyneb hapus i'r golwg. Pam fod y ddau'n hapus nawr?

Adroddwch hanes Luc 24 yn eich geiriau eich hun.

Gorffennwch drwy esbonio wrth y plant fod Iesu wedi aros ar y ddaear am ychydig cyn mynd yn ôl i'r nef at Dduw.



AMSER CREFFT

1. Pyped Mul

Bydd angen copi o Atodiad 2 ar gyfer pob plentyn, siswrn, glud, llygaid, clustiau o bapur crêp/tusw, creonau brown a llwyd.

2. Plannu hadau

Bydd angen cwpan/twb plastig, sticeri, ffyn lolipop i greu croes, pridd, hadau, rhuban. Gadewch i'r plant addurno'r cwpanau/potiau gyda'r sticeri.

Clymwch ddarn o ruban o'i amgylch: mae'r rhuban yn ein hatgoffa fod Iesu wedi dod i'r byd fel rhodd gan Dduw.

Llenwch y potiau gyda phridd a gosodwch y groes yn y pot: mae'r groes yn ein hatgoffa fod Iesu wedi marw ar y groes.

Plannwch yr hadau: dydy'r hedyn ddim yn edrych yn fyw, ond mewn ychydig, os byddwn yn rhoi dŵr iddo, bydd yn dod yn fyw a bydd planhigyn bychan yn tyfu. Er bod Iesu wedi marw, daeth yn ôl yn fyw.

Esboniwch ystyr yr elfennau gwahanol i'r plant. Anogwch y plant i edrych ar ôl yr hadau er mwyn eu gweld yn tyfu!

3. Lindys blewog

Bydd angen hen bâr o deits, hadau gwair, tywod, llygaid gwgli, bandiau 'lastig. Hefyd, llyfr gwybodaeth sy'n dangos cylch bywyd lindys, pinnau ffelt golchadwy.

O flaen llaw, gwnewch gymysgedd o dywod a hadau a byddwch yn hael gyda'r hadau. Torrwch goesau'r teits, fel eich bod yn cadw tua 20cm o'r troed.

Dangoswch y lluniau o'r lindysyn yn troi'n löyn byw. Esboniwch y byddwn yn creu lindys ein hunain, ond bod gan y lindys sypreis yn ein disgwyl!

Cynorthwywch y plant i lenwi'r 'lindys' gyda'r gymysgedd o dywod/hadau a chlymwch y

pen gyda band 'lastig. Gosodwch y llygaid gwgli yn eu lle. Gadewch i'r plant addurno'r 'lindys' gyda'r pinnau ffelt.

Byddai'n syniad danfon cyfarwyddiadau adref gyda'r plant am sut i ofalu am y 'lindys' – mae angen cadw'r creadur mewn lle llaith a dylai'r hadau gwair egino o fewn ychydig ddyddiau gan greu lindys blewog!

4. Gêm Stori'r Pasg

Bydd angen y cylch a'r saeth o Atodiad 4, 'pin hollt' a'r lluniau o'r Gdd wedi'u torri allan yn barod. Bydd angen un set o luniau ar gyfer pob plentyn ac amlen i gario'r cwbl gartref.

Paratoi'r gêm

- ❖ cynorthwywch y plant i liwio'r lluniau, ac wrth wneud, trafodwch eu lle yn hanes y Pasg.
- ❖ rhowch gylch i bob plentyn a lliwio'r lluniau.
- ❖ gosodwch y 'pin hollt' a'r saeth yn eu lle ac ymarfer troi'r saeth. Holwch y plant wrth weld at ba lun mae'r saeth yn cyfeirio.
- ❖ Yna, esboniwch reolau'r gêm a'i chwarae.

Rheolau'r gêm:

- ❖ gosodwch y lluniau yng nghanol y bwrdd.
- ❖ mae'r plant yn cymryd tro i droi'r saeth.
- ❖ maen nhw'n dewis y llun o ganol y bwrdd i gyfateb â'r llun y mae'r saeth yn cyfeirio ato a'i osod ar y cylch ar ben y llun perthnasol.
- ❖ bydd y plentyn yn methu tro os bydd y saeth yn cyfeirio at lun sydd ganddynt yn barod.
- ❖ parhewch nes bod bob plentyn wedi cael set lawn o luniau ar ei ch/gylch
- ❖ rhowch y darnau i gyd mewn amlen gydag enw'r plentyn yn barod i fynd adref.



AMSER CANU A GWEDDÏO

Rhigwm

Adroddwch y rhigwm i ddechrau gan ddangos y symudiadau. Yna, anogwch y plant i gopïo'r symudiadau wrth i chi eu hail-adrodd cyn eu hannog i ymuno i mewn gyda'r geiriau.

Ble mae Iesu? Ble mae Iesu?
Codi dwylo uwchben y llygaid i chwilio.

Dewch i chwilio gyda Mair.
Ystum galw rhywun atoch.

Yn y bedd? Yn y bedd?
Plygu i lawr, fel petaech yn edrych i mewn i ogof.

Dydy Iesu ddim fan hyn.
Ysgwyd y pen gyda golwg siomedig.

Yn yr ardd? Yn yr ardd?
Chwilio o amgylch yr ystafell.

Pwy sy'n siarad gyda Mair?
Codi dwylo.

Dyma Iesu, dyma Iesu.
Clapio dwylo.

Nôl yn fyw. Hwre, hwre!
Neidio i fyny ac i lawr, gyda dwylo yn yr awyr.

Cân

'Pan rwy'n cofio' (Tyrd i Ddathlu)

Os nad yw'r plant yn medru canu'r geiriau i gyd, gallant ymuno yn y cytgan a chyda'r symudiadau.

Symudiadau:

Penillion: 'does dim troi yn ôl i mi mwy' (troi o amgylch)

Cytgan: Na, na, dim o gwbl (ysgwyd bys y llaw dde)

Ah! Ah! Ah! (Ysgwyd bys y llaw chwith)

Does dim troi yn ôl i mi mwy. (Troi o amgylch)

Gweddi

Defnyddiwch y modelau o Atodiad 3 - Mr a Mrs Cleopas. Gofynnwch i'r plant ymhle wnaeth y ddau gyfarfod ag Iesu. Ble aethon nhw wedyn?

Esboniwch wrth y plant ein bod yn medru siarad gydag Iesu, er nad ydym yn ei weld. Mae Iesu'n ein gweld ble bynnag yr ydym. Ac mae Iesu am inni siarad gydag ef. Gofynnwch am syniadau'r plant ynglŷn â ble y gallwn weddïo. Defnyddiwch syniadau mewn gweddi syml.

e.e. Diolch Iesu dy fod yn fy ngweld pan fyddaf yn chwarae yn yr ardd.

Efallai yr hoffech wahodd bob plentyn yn eu tro i gynnig syniad ac yna gweddïo.

AMSERLEN

Wythnos 1:


Amser Chwarae 1 neu 2; Stori 1; Crefft 1; Cân.

Wythnos 2:



Amser Chwarae 3 neu 4; Stori 2; Crefft 2 neu 3; Rhigwm.

Wythnos 3:

Amser Chwarae 5; Stori 3; Crefft 4; Gweddi.




Torrwch y lluniau allan a'u gludo ar y llun.





Taflen 2 Y Pasg: Y Daith Fawr

Un noson, cafodd Iesu a'i ffrindiau swper arbennig.
Dyweddodd Iesu ei fod yn mynd yn ôl i'r nefoedd cyn bo' hir at Dduw ei Dad.
Mae'r bara a'r gwin yn ein hatgoffa am Iesu'n marw ar y groes.




Lliwiau lluniau neu gluda ddarnau o bapur lliw ar y cwpan a'r dorth.



Wyt ti wedi bod ar siwrne erioed?

Aeth Iesu ar sawl siwrne. Dyma rai ohonynt.

Dilyn y llwybr i weld ble aeth Iesu.





Oed 6 - 11

Y Pasg: Y Daith Fawr



Amcanion

- ❖ I gyflwyno prif ddigwyddiadau hanes y Pasg
- ❖ I ystyried gwaith Iesu, ein Gwardwr
- ❖ I lawenhau yng ngwrth yr Atgyfodiad

Cân i'r gyfres

'Pan rwy'n cofio beth wnaeth Iesu i mi', allan o *Tyrd i Ddathlu*

Adnod i'r gyfres

'Hwn yw dydd buddugoliaeth yr Arglwydd;
gorfoleddwn a llawenhawn.' Salm 118:24

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Gêm deithio

Bydd angen y lluniau o Atodiad 1,
(siop, ysgol, parc, llyfrgell).

Edrychwch ar y lluniau gyda'r plant gan drafod yr achlysuron pan fyddant yn ymweld â'r gwahanol lefydd. Anogwch bob plentyn i gyfrannu at y sgwrs. Gofynnwch sut byddant yn cyrraedd y llefydd hyn, e.e. cerdded, mewn car.

Yna, gosodwch y lluniau ar bedair wal a chael pawb i sefyll gyda'i gilydd yng nghanol yr ystafell. Gofynnwch i'r plant i 'deithio' i un o'r lleoliadau mewn modd penodol, e.e. 'Dwi am i bawb sgipio i'r llyfrgell'. Bydd y person olaf i gyrraedd y lleoliad allan o'r gêm.

Neu, paratowch swp o bapurau bach coch, a rhoi un i'r person olaf bob tro. Ar ddiwedd amser penodol, gofynnwch i'r plant i gyfri faint o bapurau sydd ganddynt. Rhwch wobwr fechan i'r plentyn gyda'r nifer isaf.

Ar ôl chwarae'r gêm, holwch a oes rhywun wedi marchogaeth mul neu geffyl erioed. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl heddiw am rywun yn mynd ar daith ar gefn mul.

2. Gêm y Cof

Eisteddwch mewn cylch. Mae'r person cyntaf yn adrodd y cymal 'Mi es i i'r farchnad i brynu moron i ginio.' Mae'r ail berson yn ail adrodd y cymal yn ei gyfanrwydd ac yn ychwanegu rhywbeth arall, e.e. 'Mi es i i'r farchnad i brynu moron i ginio a chloch newydd i fy meic.' Os na fydd rhywun yn gallu adrodd pob gair yn gywir, byddant allan o'r gêm. Parhewch nes bod un person yn unig ar ôl a rhwch wobwr fechan iddynt, gan ei llongyfarch am feddu'r cof gorau.

Trafodwch ystyr Gŵyl y Pasg, gan holi pam ein bod yn ei ddathlu. Pa hanes o'r Beibl fyddwn ni'n ei gofio'n arbennig adeg y Nadolig? Esboniwch fod hanes y Pasg mor bwysig, mae'n dda cael cyfle bob blwyddyn i



FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

gofio am Iesu'n marw ar y groes; ond mewn gwirionedd, dylem gofio hyn bob dydd.

3. Gêm “Mewn perygl!”

Chwaraewch y gêm ganlynol neu'r gêm “Achub” o werslyfr Moses. Ar ôl y gêm, trafodwch y bobl sy'n ein helpu ni mewn sefyllfaoedd peryglus, e.e. dynion tân, pobl y badau achub, meddygon, timoedd achub mynydd, achubwyr y pwll nofio.

Rhannwch y plant i dimoedd. Ras yn erbyn y cloc yw hon - byddwch angen amseru pob tîm i weld pa dîm sy'n gorffen gyflymaf. Dywedwch wrth y plant eu bod mewn lle peryglus - gadewch i'r plant awgrymu ryw sefyllfa. Mae'n rhaid i un aelod o'r tîm gludo gweddill y tîm i fan diogel. Mae'r “Achubwr” yn sefyll ar un ochr yr ystafell - dyma'r man diogel - ac mae gweddill y tîm yn sefyll gyferbyn ag ef/hi, ochr arall yr ystafell. Rhyngddynt, mae darnau o bapur/cerdyn, tua maint A4, fel cerrig camu. Mae'r “Achubwr” yn camu ar y cerrig i gyrraedd yr ochr draw, Mae'n gafael yn llaw/garddwn un aelod a'i arwain yn ôl dros y cerrig i'r man diogel (gall yr “Achubwr” gario'i dîm ar ei gefn os teimlwch fod hyn yn dderbyniol). Os bydd eu traed yn cyffwrdd y llawr, rhaid cychwyn y daith eto. Ar ôl cludo'r person cyntaf, mae'r “achubwr” yn hebrwng aelod arall nes bod pawb wedi cyrraedd y man diogel. Yr enillwyr ydi'r tîm cyflymaf.

Esboniwch y byddwn yn trafod marwolaeth Iesu heddiw ac yn ceisio deall bod y Beibl yn dweud fod Iesu wedi marw er mwyn ein Hachub ni.

4. Cwis –Dyfalwch pwyr

Mae cyflwyniad *PowerPoint* a lluniau ar gael i'w hargraffu ar y Gdd.

Ar ôl y cwis, esboniwch y byddwn yn clywed hanes dau o ffrindiau Iesu a gafodd drafferth i'w adnabod ar ôl iddo atgyfodi.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

1. Yr Ymdaith i Jerwsalem (Mathew 21)

Bydd angen copiâu o Atodiad 5, wedi'u torri allan a'u cuddio o amgylch yr ystafell ymlaen llaw. Hefyd, y llun o Atodiad 6 a Beiblau.

Gyda grŵp mawr o blant, gallwch wneud copiâu ar bapur lliw gwahanol a rhannwch y grŵp i dimoedd, fel bod pob tîm yn chwilio am liw gwahanol.

Hefyd, bydd angen creu rhestr o gliwiau a fydd yn arwain y plant at y papurau. Bydd rhaid ystyried eich ystafell unigryw ond dyma rai awgrymiadau:

Tu ôl i rywbeth sy'n dal llyfrau; o dan yr offeryn; yn cuddio gyda'r pensiliau; mae Anti.... yn eistedd ar un ohonynt. Cewch greu cliwiau anoddach os hoffech, yn enwedig ar gyfer plant hŷn.

Gwnewch restr o gliwiau ar gyfer bob tîm. Os ydych yn bwriadu defnyddio'r un cliwiau ar gyfer y timoedd cofiwch gymysgu trefn y cliwiau, fel na fydd y plant yn chwilio yn yr un lle a'i gilydd o hyd.

Esboniwch eu bod yn chwilio am ddail, a bod rhan o'r hanes i'w gael ar bob un, ac ar ôl casglu'r 6 deilen, mae'n rhaid i bob tîm osod y stori mewn trefn a'i darllen. Gofynnwch i rai o'r plant i ddarllen yr hanes ar goedd.

Dangoswch y llun o Iesu'n marchogaeth asyn (Atodiad 6). Beth oedd y bobl yn gweiddi? Cynorthwywch y plant i ddod o hyd i Mathew 21, adnod 9.

Ysgrifennwch y geiriau "Hosanna i Fab Dafydd" rhywle ar y llun a gofynnwch i'r plant pwy oedd Dafydd? A'i Dafydd oedd enw tad Iesu?

Esboniwch mai Brenin pwysicaf Israel oedd Dafydd - roedd wedi byw blynyddoedd cyn Iesu, ond roedd Iesu'n perthyn iddo. Felly, wrth alw Iesu'n fab Dafydd, roedd y bobl yn

ei gyfarch fel Brenin. Roedd y gair Hosanna'n cael ei ddefnyddio i ganmol rhywun.

Gofynnwch i'r plant pam fod Iesu'r Brenin yn marchogaeth asyn i mewn i Jerwsalem ac yntau'n Frenin? Ar ôl gwranddo ar gyfraniadau'r plant, esboniwch mai nid Brenin cyffredin oedd Iesu, doedd e ddim yn byw mewn palas gyda llawer o arian a gweision.

Roedd Iesu wedi dod i'r byd i ddangos bod Duw yn caru ei bobl ac am fod yn Frenin ym mywydau ei bobl. Mae Iesu am fod yn Frenin yn ein calonnau – mae am fod yn fos yn ein bywydau.

2. Y Daith i'r Groes (Mathew 21-27)

Bydd angen yr eitemau canlynol, wedi'u gosod o amgylch yr ystafell a'u rhifo. Hefyd, y llinyn amser a Beiblau.

Atgoffwch y plant fod Iesu a'r disgyblion wedi cyrraedd Jerwsalaem ar gyfer Gŵyl y Pasg – gŵyl yr oedd yr Iddewon yn ei dathlu bob blwyddyn i gofio sut y bu i Dduw eu hachub o'r Aifft. Gofynnwch i'r plant i chwilio ar y llinyn amser am lun Moses yn arwain pobl Dduw drwy'r môr Coch a darllenwch y paragraff sydd o dan y llun.

Eglurwch fod ein hanes am Iesu heddiw yn cael ei gyflwyno drwy'r eitemau sydd o amgylch yr ystafell.

Cewch adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun wrth symud o un eitem i'r llall, neu cewch chwilio am yr adnodau perthnasol, gyda'r plant yn cymryd tro i'w darllen.

1. bag o geiniogau

Mathew 21: 12. Ymweliad Iesu â'r Deml.

2. gwydr gwin a darn o fara.

Mathew 26: 26, 27. Y Swper Olaf.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

3. darn o gerdyn gyda'r rhif '30.'

Mathew 26: 14,15. Penderfyniad Jwdas i fradychu Iesu.

4. llun dwylo gweddigar (Atodiad 7).

Mathew 26: 36. Iesu'n mynd i Ardd Gethsemane i weddio gyda'r disgyblion.

5. darn o gerdyn gyda'r rhif '3.'

Mathew 26: 75. Pedr yn gwadu Iesu deirgwaith.

6. **powlen o ddŵr.** Mathew 27: 24. Pilat yn golchi ei ddwylo ar ôl cwestiynu Iesu (yn arwydd nad oedd am gael ei gyfri'n gyfrifol am farwolaeth Iesu).

7. darn o ddefnydd coch a choron o ddrain.

Mathew 27: 2 8, 29. Gosodwyd clogyn coch a choron o ddrain ar Iesu, fel jôc sbeityld.

8. croes fach bren, darn o gerdyn gyda'r geiriau 'Brenin yr Iddewon' arno, powlen fach o finegr.

Mathew 27: 37. Cafodd Iesu ei hoelio ar groes, fel troseddwr, a rhoddwyd yr arwydd ar y groes i'w wawdio. Cynigodd un o'r milwyr ddiod o finegr iddo.

9. darn o ddefnydd gellir ei rwygo'n hawdd.

Mathew 27: 51. Pan fu farw Iesu, rhwygwyd y llen yn y Deml o'r gwaelod i'r top. Roedd hyn yn arwydd bod ffordd newydd i ddod at Dduw wedi'i wneud drwy farwolaeth Iesu. Doedd dim angen mynd i'r Deml gydag aberthau mwyach. Mae Duw'n fodlon maddau i bwy bynnag sy'n gofyn iddo, am fod Iesu wedi marw yn ein lle ar y groes.

10. carreg.

Mathew 27: 59, 60, 61. Aeth Joseff, un o ddisgyblion Iesu, â chorff Iesu i'w gladdu mewn bedd. Rhoddodd garreg fawr o flaen ceg y bedd.

Cymhwyso

Rhowch gopi o daflen 7 i bawb. Edrychwch ar y lluniau 'achub' a chwiliwch am yr adnod.

Trafodwch ystyr yr adnod gan gyfeirio at Iesu fel Achubwr neu Waredwr.

Byddai'n dda treulio amser yn diolch i Iesu am farw drosom, i'n hachub.

Yna, gadewch i'r plant orffen y daflen drwy dynnu lluniau'r eitemau o'r stori.

3. Taith Drist i Emaus

(Luc 24:13-35)

Bydd angen y darlleniad o Atodiad 8, Taflen 7, dillad i wisgo dau o'r plant fel Cleopas a'i ffrind, tafell o fara a gwydryn gwin. Hefyd, y taflenni o'r wythnos ddiwethaf, hanes y croeshoeliad. Taflen 8.

Defnyddiwch y taflenni i adolygu'r wers. Neu, os na chawsoch gyfle i ddefnyddio'r daflen, defnyddiwch Feibl plant i atgoffa'r plant o hanes Iesu'n cael ei groeshoelio a'i gladdu. Gwahoddwch ddau o'r plant i fod yn Cleopas a'i ffrind, a'u gwisgo'n barod ar gyfer y meimio. Bydd angen un plentyn i fod yn Iesu. Cyflwynwch Cleopas a'i ffrind i weddill y dosbarth, fel dau o ddisgyblion Iesu a oedd wedi bod yn Jerwsalem ac wedi gweld Iesu'n cael ei arestio, ei groeshoelio a'i gladdu.

Parhewch gyda'r darlleniad, gan annog y ddau i actio/meimio wrth i chi ddarllen. Efallai yr hoffech gael y ddau ddisgybl i ail adrodd ychydig o'r sgwrs ar eich ôl.

Ar y diwedd, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r ddau ddisgybl, ond os nad ydynt yn medru ateb, gadewch i'r plant eraill gynnig eu syniadau.

1. Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl gweld Iesu'n cael ei groeshoelio?

2. Pwy oeddech chi'n credu oedd yn cerdded gyda chi?

3. Pryd wnaethoch chi sylweddoli mai Iesu oedd gyda chi?

4. Sut oeddech chi'n teimlo ar y ffordd yn ôl i Jerwsalem?



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Gofynnwch i'r plant i ddychmygu eu bod wedi gweld Iesu'n cael ei groeshoelio ac wedi siarad gydag ef a'i weld unwaith eto. Beth yw eu hymateb?

Edrychwch ar y lluniau ar Daflen 8, gyda'ch gilydd a thrafod beth sy'n digwydd ymhob llun. Beth mae'r digwyddiadau hyn yn ei ddysgu i ni am Iesu Grist?

1. Dywedodd yr angel Gabriel fod baban Mair hefyd yn Fab Duw (Luc 1:35)
2. Gwnaeth Iesu wyrthiau i ddangos fod ganddo allu Duw (Ioan 2:11)
3. Bu farw Iesu ar y groes i fod yn Achubwr (Luc 19:10)
4. Atgyfododd Duw Iesu o farwolaeth fel ein bod yn medru cael ein gwneud yn iawn gyda Duw (Rhufeiniaid 4:25) a chael bywyd newydd gan yr Ysbryd Glân (Rhufeiniaid 8:11).

Gwnewch y pŵs sydd ar waelod y daflen waith.

Doedd y disgyblion ddim wedi deall pwy oedd Iesu Grist mewn gwirionedd - ond ar ôl i Iesu atgyfodi, maen nhw'n dechrau sylweddoli mai Iesu yn wir yw Mab Duw ac yn cofio'r hyn a ddysgodd Iesu iddyn nhw. Ond roedd angen cymorth arnyn nhw, a dyna pam aeth Iesu'n ôl i'r nef, er mwyn danfon yr Ysbryd Glân i'w helpu.

Byddai'n syniad gweddïo gyda'r plant wrth edrych ar y lluniau eto, a chydabod nad ydyn ni'n deall popeth am Iesu chwaith. Gweddïwch am help yr Ysbryd Glân i ddeall mwy ac i gredu yn Iesu.

GWEDDÏAU

Goleuni'r Byd

Bydd angen kannwyll sy'n ail gynnu ei hun, a matsys.

Taniwch y gannwyll ac atgoffwch y plant o'r adnod, 'Myfi yw goleuni'r byd' ac ystyr yr adnod.

Diffoddwch y gannwyll ac esboniwch pan fu farw Iesu, roedd y diafol yn meddwl ei fod wedi diffodd golau Iesu. Ond, yn union fel mae'r gannwyll yma'n ail gynnu, daeth Iesu'n ôl yn fyw. Roedd Iesu'n gryfach na marwolaeth hyd yn oed.

Darllenwch y weddi ganlynol, gyda phawb yn ymuno i ddweud 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch Iesu am ein caru.

'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am ddod i'r byd.

'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am yr holl wyrthiau

sy'n dangos i ni pwy wyt ti.

'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am farw ar y groes drosom.

'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch dy fod ti'n gryfach na marwolaeth.

'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am atgyfodi ar y trydydd dydd.

'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Wynebaw hapus a thrist

Bydd angen dau plât papur a phinnau ffelt.

Gofynnwch i un o'r plant i dynnu llun wyneb trist ar un o'r platiau. Trafodwch pa ddigwyddiadau trist sydd yn hanes y Pasg. Yna, gofynnwch i un o'r plant i dynnu llun wyneb hapus a thrafodwch pa ddigwyddiadau hapus sydd yn yr hanes.

Pasiwch y plât trist o amgylch a gofynnwch i'r plant i weddïo dros rywun sy'n drist neu am rywbeth sy'n peri eu bod yn drist. Cyn dechrau, esboniwch wrth y plant fod Iesu'n deall yn iawn pan fyddwn ni'n drist oherwydd ei fod ef wedi bod yn drist hefyd.

Yna, pasiwch y plât hapus o amgylch gan annog y plant i ddiolch i Dduw am y pethau sy'n peri ein bod yn hapus. Anogwch y plant i weddïo yn ystod yr wythnos sydd i ddod, gan rannu'r pethau sy'n ein gwneud yn drist neu'n hapus bob dydd gydag Iesu.



SYNIADAU CREFFT

1. Plât Hosanna

Bydd angen plât papur i bawb, glud, rhuban, copi o Atodiad 10.

Yn syml iawn, rhaid lliwio'r lluniau o Atodiad 10, eu torri allan a'u gludo ar y plât gyda'r gair 'Hosanna' yn y canol. Gwnewch dwll ar gyfer y rhuban i greu llun deniadol iawn.

2. Ffenestr Liw

Bydd angen papur tusw neu seloffen lliwgar, siswrn, cerdyn du, glud, papur plaen a phensiliau ar gyfer gwneud braslun. Cewch esiamplau o symbolau Cristnogol ar y Gdd

- ❖ Torrwch y cerdyn du yn siâp ffenestr
- ❖ Gwnewch fraslun o gynllun sy'n cynnwys symbol Cristnogol (croes, calon, dwylo gweddigar, colomen, fflam)
- ❖ Torrwch siapiau o'r cerdyn i greu'r llun
- ❖ Gludwch ddarnau o bapur lliwgar dros y tyllau
- ❖ Gosodwch y lluniau wrth ffenestr i'r golau gael disgleirio drwyddynt fel ffenestr liw go iawn.

3. Tyfu hadau

- ❖ Mewn cwpan

Bydd angen cwpan/twb plastig, sticeri, ffyn lollipop i greu croes, pridd, hadau, rhuban.

Gadewch i'r plant addurno'r cwpanau/potiau gyda'r sticeri.

Clymwch ddarn o ruban o'i amgylch: mae'r rhuban yn ein hatgoffa fod Iesu wedi dod i'r byd fel rhodd gan Dduw.

Llenwch y potiau gyda phridd a gosodwch y groes yn y pot: mae'r groes yn ein hatgoffa fod Iesu wedi marw ar y groes.

Plannwch yr hadau: dydy'r hedyd ddim yn edrych yn fyw, ond mewn ychydig, os byddwn yn rhoi dŵr iddo, bydd yn dod yn fyw a bydd

planhigyn bach yn tyfu. Er bod Iesu wedi marw, daeth yn ôl yn fyw.

Esboniwch ystyr yr elfennau gwahanol i'r plant. Anogwch y plant i edrych ar ôl yr hadau er mwyn eu gweld yn tyfu!

❖ Lindys blewog

Bydd angen hen bâr o deits, hadau gwair, tywod, llygaid gwgli, bandiau lastig. Hefyd, llyfr gwybodaeth sy'n dangos cylch bywyd lindys, pinnau ffelt golchadwy.

O flaen llaw, gwnewch gymysgedd o dywod a hadau a byddwch yn hael gyda'r hadau. Torrwch goesau'r teits, fel eich bod yn cadw tua 20cm o'r droed.

Dangoswch y lluniau o'r lindysyn yn troi'n löyn byw. Esboniwch y byddwn yn greu lindys ein hunain, ond bod gan y lindys sypreis yn ein disgwyl!

Cynorthwywch y plant i lenwi'r 'lindys' gyda'r cymysgedd o dywod/hadau a chlymwch y pen gyda band lastig. Gosodwch y llygaid gwgli yn eu lle. Gadewch i'r plant addurno'r 'lindys' gyda'r pinnau ffelt.

Byddai'n syniad danfon cyfarwyddiadau adref gyda'r plant am sut i ofalu am y 'lindys' – mae angen cadw'r creadur mewn lle llaith a dylai'r hadau gwair egino o fewn ychydig o ddyddiau i greu lindys blewog!

4. Pecynnau Crefft

Mae dau becyn crefft deniadol ar gael gan Gyngor Ysgolion Sul. Cysylltwch â aled@ysgolsul.com er mwyn gwneud archeb.

5. Taflenni gwaith



GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Cwis

Bydd angen y cwestiynau canlynol, siâp coron i bob tîm, dis, sticeri neu siapiau gludiog (gema).

Rhannwch y plant yn dimoedd, gyda choron yr un. Gofynnwch y cwestiynau i'r timoedd yn eu tro. Os byddant yn cynnig ateb cywir, caiff un aelod daflu'r dis a chymryd y nifer hynny o sticeri/siapiau i 'addurno'r' goron. Os na fydd ateb cywir, gofynnwch yr un cwestiwn i'r tîm nesaf.

Parhewch nes bod y cwestiynau wedi cael eu gofyn. Cyfrwch faint o emau sydd gan bob tîm a rhowch wobwr fechan i'r enillwyr.

Dysgu Adnod

'Hwn yw dydd buddugoliaeth yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenhawn.'
(Salm 118:24)

Trafodwch yr achlysuron pan mae pobl yn dathlu rhyw fuddugoliaeth, e.e. pan fydd tîm pêl-droed yr ysgol yn ennill gêm. Sut maen nhw'n dangos eu bod yn hapus? Sut fydd pobl yn dathlu?

Defnyddiwch rai o'r syniadau wrth ddysgu'r adnod.

Rhannwch y plant yn ddau grŵp. Mae un grŵp yn adrodd cymal o'r adnod gyda symudiad, yna, mae'r ail grŵp yn eu copïo.

Dyma awgrym:

Grŵp 1: Hwn yw dydd

(gan ddwrddio'r awyr)

Grŵp 2: Hwn yw dydd

(gan ddwrddio'r awyr)

Grŵp 1: Buddugoliaeth yr Arglwydd

(chwifio breichiau yn yr awyr)

Grŵp 2: Buddugoliaeth yr Arglwydd

(chwifio breichiau yn yr awyr)

Grŵp 1: Gorfoleddwn

(neidio i fyny ac i lawr wrth droelli)

Grŵp 2: Gorfoleddwn

(neidio i fyny ac i lawr wrth droelli)

Grŵp 1: Llawenhawn

(gafael yn nwylo person arall a throelli)

Grŵp 2: Llawenhawn

(gafael yn nwylo person arall a throelli)

Gêm : Gofalu am yr asyn

Bydd angen dau hen grys ar gyfer pob tîm.

Rhannwch y plant yn dimoedd gyda dau grys. Nod y gêm yw i bawb groesi o un ochr yr ystafell i'r llall - fel asynnod ar eu pedwar. Dydyn nhw ddim yn cael cyffwrdd â'r llawr chwaith, mae'n rhaid penlinio ar y crysau sy'n cael ei rhoi ar y llawr wrth draed yr 'asyn' gan aelod arall o'r tîm. Mae'r aelod hwnnw yn symud y crysau o flaen yr 'asyn', nes eu bod yn cyrraedd yr ochr arall, cyn dychwelyd y crysau at y tîm a chychwyn gyda'r 'asyn' nesaf. Yn y diwedd, dim ond un person fydd ar ôl, felly bydd rhaid i'r person olaf symud y crysau ei hun er mwyn teithio ar draws yr ystafell.



DRAMA

1. Dawns - yn farw neu'n fyw?

❖ Chwaraewch y gêm syml hon gyda'r plant i ddechrau: Cael pawb i sefyll mewn rhes yng nghanol yr ystafell. Eglurwch eich bod am alw enwau pethau cyffredin iddynt, ac mae'n rhaid iddynt benderfynu a ydy'r pethau'n fyw neu'n farw. Os ydy'r peth a enwir yn fyw, mae'n rhaid i'r plant redeg at y wal ar y chwith ond os yw'r peth yn farw, rhaid rhedeg at y wal ar y dde.

❖ Dysgwch yr adnod gyda'ch gilydd. "Paid bod ag ofn. Fi ydy'r Cyntaf a'r Olaf, yr Un Byw. Roeddwn i wedi marw, ond edrych! - dwi'n fyw am byth bythoedd!"

❖ Eglurwch y byddwch yn ceisio creu dawns syml i gyflwyno'r adnod. Treuliwch amser yn trafod syniadau gyda'r plant cyn eu rhannu'n grwpiau o ddau neu dri. Mae neges yr adnod yn un bwerus, felly anogwch hwy i geisio adlewyrchu'r pŵer hwnnw yn y ddawns.

❖ Dewiswch gerddoriaeth i chwarae yn y cefndir

❖ Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno'r ddawns i bawb, gan ddechrau drwy adrodd yr adnod.

2. Darlleniad gyda meim

Defnyddiwch y darlleniad o Atodiad 8 – hanes Luc 24, y daith i Emaus.

Rhannwch y plant i grwpiau os dymunwch, gyda chopi o'r darlleniad.

Byddai'n syniad gwyllo'r rhan yma o'r hanes ar ffilm. Mae'r hanes i'w weld ar *Stryd Luc a Gŵr y Gwyrthiau*.

Beth oedd y plant yn ei sylwi am gymeriadau'r hanes? Anogwch y plant i gofio dangos yr un emosiynau wrth feimio.

Rhowch amser i'r grŵp/grwpiau i ddarllen dros yr hanes ac ymarfer am ychydig, cyn eu gwahodd i gyflwyno'r meim i bawb arall.

3. Stori'r Pasg

Mae'r plant wedi arfer cyflwyno hanes y Nadolig, yn gwisgo i fyny ac actio'r gwahanol gymeriadau. Beth am dreulio amser yn paratoi hanes y Pasg yn lle?

Cewch rannu'r plant fel eu bod yn paratoi un olygfa, neu dewiswch rai golygfeydd yn unig. Dyma awgrymiadau am olygfeydd:

❖ Iesu'n golchi traed y disgyblion

❖ Iesu'n cael ei arestio yng Ngardd Gethsemane

❖ Mair yn mynd at y bedd

❖ Iesu'n ymddangos i'r disgyblion a Tomos.

Byddai'n syniad cael oedolyn i oruchwylio pob grŵp a hefyd i gasglu 'props.'

Cofiwch adael amser i bob grŵp gyflwyno eu golygfa, neu efallai yr hoffech wahodd rhywun i recordio pob golygfa a'u gwyllo'r wythnos nesaf.

4. Sgetsys

Mae dwy sgets addas ar gael yn y llyfr '*Mwy na Drama'r Nadolig*', gan Catrin Roberts, sydd ar gael gan Gyhoeddiadau'r Gair, sef 'Emaus (tudalen 56) a 'Glanhau'r Deml' (tudalen 60).

AMSERLEN

Y Daith i Jerwsalem:

Cyflwyno'r Thema 1 neu 2; Stori 1; Crefft 1; Drama 3; Gweddi;

Y Daith i'r Groes:

Cyflwyno'r Thema 3; Stori 2; Crefft 2 neu 3; Drama 1 neu 4; Adnod;

Y Daith i Emaus:

Cyflwyno'r Thema 4; Stori 3; Crefft 2 neu 3; Drama 2 neu 4.



Taflen 4 Y Pasg: Y Daith Fawr



H	W	C	D	R	T	M	N
O	A	U	S	E	R	E	U
S	P	S	O	Y	L	T	A
A	L	E	M	I	B	C	I
N	U	I	E	T	R	A	T
N	O	D	L	M	N	H	O
A	S	Y	N	D	F	G	C
O	P	N	I	N	E	R	B

Dewch o hyd i'r geiriau o hanes Iesu'n marchogaeth i mewn i Jerwsalem:

- | | |
|---------|--------|
| Iesu | Asyn |
| Deilen | Cotiau |
| Hosanna | Brenin |



Luc pennod 24 Yr Atgyfodiad

¹ Yn gynnar iawn y bore aeth y gwagedd at y bedd gyda'r perlusiau roedden nhw wedi eu paratoi.

² Dyma nhw'n darganfod fod y fawr oedd ar geg y bedd wedi ei rholio i ffwrdd,

³ a phan aethon nhw i mewn i'r bedd doedd y ddim yno!

⁴ Roedden nhw wedi drysu'n lân, ond yna'n sydyn mewn dillad llachar yn sefyll wrth eu hymyl.

⁵ Roedd y gwagedd wedi dychryn am eu bywydau, a dyma nhw'n plygu â'u hwynebau i lawr o'u blaenau. Yna dyma'r dynion yn gofyn iddyn nhw, "Pam ydych chi'n edrych mewn am rywun sy'n ?




Taflen 7 Y Pasg: Y Daith Fawr



Edrychwch ar y lluniau ac yna ateb y cwestiynau:

- ❖ A allai rhai o'r bobl achub eu hunain?
- ❖ Beth oedd angen iddynt wneud i gael cymorth?
- ❖ Sut fyddech chi'n disgrifio'r rhai a ddaeth i'w hachub?
- ❖ Oedd hi'n waith hawdd i achub y rhai yn y lluniau?
- ❖ Ym mha ffordd ydyn ni'n debyg i'r rhai yn y lluniau?
- ❖ Pwy sy'n ein hachub ni?



Copiwch Luc 2: 11 yma.





Beth ddywedodd yr angylion am Iesu?

Roedd 10 eitem yn gysylltiedig â hanes Iesu'n cael ei groeshoelio.
Tynnwch luniau ohonynt yma.



Pwy yw Iesu?

Dewch o hyd i'r adnodau er mwyn darganfod beth mae pob llun yn ei ddysgu inni am bwy yw Iesu.

<p>Luc 1:35</p> 	<p>Ioan 2:11</p> 
<p>Luc 19:10</p> 	<p>Rhufeiniaid 4:25</p> 

Cwblhewch y pês i ddarganfod beth ddywedodd Duw am Iesu.

1. Dilëwch ddiwrnodau'r wythnos
2. Dilëwch bob lliw
3. Dilëwch enwau anifeiliaid
4. Dilëwch y rhifau

Pa ddau air sydd ar ôl?

Ydy'r ateb yn gywir?

Trowch at Luc 3, adnod 22 i weld.

Pwy yw Iesu?

llun	coch	ci	cwningen	un	llwyd
cath	oren	mawrth	melyn	llygoden	pump
mercher	fy	gwyrdd	ceffyl	tri	brown
eliffant	glas	iau	saith	mwnci	naw
chwech	gwener	dafad	fioled	mab	wyth
sul	mochyn	du	pedwar	deg	sadwrn



Wythnos 1 (Mathew 21)

Yr ydym am gyflwyno hanes Iesu'n cyrraedd Jerwsalem a'i ymweliad â'r Deml. Byddwn yn canoli ar y gwirionedd fod Iesu wedi dod i'r byd, nid i ryddhau ei bobl rhag y Rhufeiniaid, ond o'u crefydd wag.

Mae'r hanes yma'n siŵr o fod yn gyfarwydd iawn i'r bobl ifanc. Mae Iesu, er mwyn cyflawni proffwydoliaethau'r Hen Destament am y Meseia, yn ymdeithio i mewn i Jerwsalem, yn marchogaeth asyn. Mae'r tyrfaoedd yn ei groesawu mewn ffordd nid yn annhebyg i'r croeso a roddwyd i Frenin buddugoliaethus. Maen nhw'n disgwyl y bydd yn gorchfygu'r Rhufeiniaid. Ond nid dyna oedd bwriad Iesu - roedd ganddo gynllun mwy na hyn hyd yn oed. Bwriad Iesu, a chynllun Duw ei Dad oedd iddo roi ei fywyd yn aberth ar y groes, gan ddelio â phechod unwaith ac am byth, gan ei gwneud yn bosibl i unrhyw un ddod i berthynas â'r Duw byw.

Felly, nid yw Iesu'n treulio ei ddiwrnod cyntaf yn y brifddinas yn trefnu rhyfel yn erbyn y Rhufeiniaid; yn hytrach, mae'n ymweld â'r Deml, i greu helynt yno! Mae ef mor flin gyda'r arweinwyr crefyddol am godi rhwystrau rhwng y bobl â Duw.

Cyflwyno'r Thema

Bydd angen copïau o'r daflen 'Arwyddion' o'r Gdd neu'r cyflwyniad PowerPoint sy'n cynnwys yr un lluniau.

Rhannwch y grŵp yn barau a gofynnwch iddynt benderfynu pa neges sy'n cael ei chyflwyno ym mhob llun. Yna, gofynnwch i'r parau i rannu eu syniadau gyda phawb arall.

A yw pawb yn cytuno ar neges pob llun?

Ydy hi'n bosibl i gael gwahanol negeseuon o'r un llun? e.e beth am y llun gyda'r person yn pwyntio bys – ydy'r person yn rhoi ffræ i rywun, yn bygwth rhywun neu'n rhoi cyfarwyddiadau i rywun?

Pa rai o'r lluniau hyn sy'n glir? Pa rai sy'n fwy annelwig?

Ydy'r arwyddion yr un peth ymhob gwlad?

Os bydd rhywun yn y wlad yma'n dal llaw allan, mae'n cael ei gydnabod fel arwydd i 'Aros' ond yng Ngwlad Roeg, mae'n arwydd difriol iawn (*moutza*). Yn yr un modd, yn Syria, os bydd rhywun yn pigo'i drwyn mae'n golygu 'Cer o'ma!' Yn y sesiwn heddiw byddwn yn ystyried sut y bu i'r Iddewon gamddeall pwy oedd Iesu a beth oedd ei fwriadau. Roedden nhw'n disgwyl y Meseia i ddod i'w hachub o lywodraeth y Rhufeiniaid, ond bwriad Duw wrth ddanfôn ei Fab oedd ei gwneud hi'n bosibl i bawb gael eu hachub o bechod.

Darllen a deall y Beibl

Bydd angen Beibl, papur, beiros, copïau o Atodiad 7.

Rhannwch y grŵp i barau, ac esboniwch y byddwch yn darllen hanes o'r Beibl. Wrth wrando, gofynnwch i bob pâr i ddychmygu eu bod yn un o'r bobl ganlynol: un o'r masnachwyr yn y Deml; un o'r bobl yn cynnig newid arian yn y Deml; un o'r Arweinwyr Crefyddol - Athro neu Offeiriad; plentyn; person anabl.

Darllenwch Mathew 21:1-11 yn uchel ddwywaith, a gofynnwch i'r parau i gofnodi sut byddai eu cymeriad yn ymateb - sut y byddent yn ymddwyn ac yn meddwl. Rhowch gyfle i bawb nodi eu hatebion cyn gwahodd y parau i rannu eu syniadau.

Nodwch ei bod hi'n debyg fod pawb yn dathlu dyfodiad y Brenin. Yna, gofynnwch:



Oed 11 - 14

Y Pasg: Y Daith Fawr

Beth oedd y bobl yn disgwyl gan y Brenin? Esboniwch fod yr Iddewon yn disgwyl y byddai Duw yn danfon y Meseia, Brenin arbennig, i'w rhyddhau rhag y Rhufeiniaid.

Darllenwch Mathew 21:12-17 ddwywaith a gofynnwch i'r parau i gofnodi ymddygiad a meddyliau eu cymeriadau eto yn y sefyllfa hon. Rhowch gopi o'r wybodaeth sydd ar waelod Atodiad 7 i bob pâr, er mwyn iddynt ddeall y cymeriadau'n well.

Gwahoddwch y parau i rannu eu syniadau cyn gofyn iddynt:

- ❖ Beth oedd y bobl yn ei feddwl am Iesu yn awr, tybed?
- ❖ Pam wnaeth Iesu ymddwyn fel hyn?

Eglurwch nad oedd Iesu wedi dod i'r byd i achub yr Iddewon rhag y Rhufeiniaid. Daeth i'r byd i achub pobl o'u pechod a'i gwneud hi'n bosibl i unrhyw un gael perthynas gyda Duw. Nid oedd yn hawdd i'r Iddewon ddeall y wers a ddysgodd Iesu iddynt wrth droi'r byrddau yn y Deml - roedd rhai o'u seremonïau a'u hagweddau'n achosi mwy o broblemau iddyn nhw na'r Rhufeiniaid. Dysgodd Iesu fod Duw yn barod i dderbyn pobl fel y maen nhw - nid oedd Arweinwyr Crefyddol y bobl yn dangos yr un mesur o dosturi o gwbl.

Cymhwyso

Naill ai

Gêm rwystredig

Bydd angen offer ar gyfer y gêm o'ch dewis.

- ❖ Dewis gêm egniol, pêl-droed neu hoci, ond bod y chwaraewyr yn cael rhwystredigaeth wrth chwarae, e.e. yn cael eu clymu i berson arall neu dim ond yn cael chwarae gydag un fraich tu ôl i'w cefn.

- ❖ Chwarae gêm fwrdd - 'Snap' neu 'Snakes and ladders' - eto, gyda rhwystredigaeth, e.e. bod yr arddwrn yn cael ei glymu i arddwrn person arall.

Neu

Clip o'r ffilm 'Toy Story 2'

Bydd angen DVD, Teledu a chwaraewr DVD neu liniadur.

Dangoswch y darn lle mae Mrs Potato Head yn ceisio stwffio cymaint ag sy'n bosibl at gefn ei gŵr, wrth iddynt baratoi i fynd i achub Woody. Neu, chwaraewch y darn yng ngolygfa'r 'out-takes' sy'n ei dangos yn ceisio stwffio hyd yn oed mwy i mewn.

Mae Mrs Potato Head yn egluro bod y pethau i gyd yn bwysig 'rhag ofn' a bod hi'n ceisio edrych ar ôl ei gŵr yn y modd gorau posibl.

Roedd y grefydd Iddewig wedi symud yn bell oddi wrth yr hyn yr oedd Duw wedi bwriadu erbyn amser Iesu. Roedd llawer o bethau ychwanegol wedi cael eu hychwanegu i'w crefydd, efallai am resymau da ar y pryd. Ond dros amser, roedd cadw'r holl reolau – bach a mawr – wedi dod yn bwysicach i'r Iddewon nag addoli Duw.

Mae hyn wedi dod yn wir hyd yn oed yn ein capeli heddiw – i lawer o bobl, mae cadw'r rheolau a'r traddodiadau'n bwysicach na chael perthynas â Duw.

Ond y rhwystr mwyaf rhwng pobl a Duw yw eu pechod, a dyna'r prif reswm y daeth Iesu i'r byd - i ddelio gyda'r broblem honno.

Gweddïau

Trafodwch gyda'r bobl ifanc 'a oes yna rwystrau yn ein bywydau ni sy'n ei gwneud hi'n anodd dod i adnabod Duw yn well'.

Fyddwn ni'n poeni am yr hyn mae ein ffrindiau'n ei ddweud am ein bod yn mynychu'r Ysgol Sul?



A ydym yn rhy ddiog i ddarllen y Beibl a gweddïo bob dydd?

Fyddwn ni'n ei chael hi'n anodd deall beth mae'r Beibl yn ei ddweud am bechod a'r rheswm pam y bu Iesu farw ar y groes?

Treulwch amser yn gweddïo dros syniadau'r bobl ifanc ac yn gofyn am gymorth yr Ysbryd Glân i ddeall yn well, ac i ymddiried yng Ngair Duw.

Gweithgaredd ychwanegol

Gêm gofio

Eisteddwch mewn cylch. Mae'r person cyntaf yn adrodd y cymal 'Mi es i i'r farchnad i brynu moron i ginio.' Mae'r ail berson yn ail adrodd y cymal yn ei gyfanrwydd ac yna'n ychwanegu rhywbeth arall, e.e. 'Mi es i i'r farchnad i brynu moron i ginio a chloch newydd i fy meic.' Os na fydd rhywun yn gallu adrodd pob gair yn gywir, byddant allan o'r gêm. Parhewch nes bod un person yn unig ar ôl a rhowch wobwr fechan iddynt, gan ei llongyfarch am feddu'r cof gorau. Adeg y Pasg byddwn yn cofio am aberth Iesu ar y groes, am ei Atgyfodiad ac am gariad Duw tuag atom.

Wythnos 2

(Mathew 28:1-10)

Mae'n rhaid bod ymddygiad Iesu wedi drysu llawer o bobl! Yn y sesiwn yr wythnos ddiwethaf, gwelsom Iesu'n gwrthwynebu nid llywodraethwyr y Rhufeiniaid, ond awdurdodau'r Deml!

Roedd y mwyafrif o'r Iddewon yn disgwyl Meseia a fyddai'n sefydlu teyrnas yn Israel ac yn eistedd ar orsedd yn Jerwsalem; beth aeth o'i le – cafodd Iesu ei groeshoelio yn gwisgo coron o ddrain? Roedd cynllun Duw yn fwy ac yn well nag yr oeddent yn ei ddisgwyl, cynllun i ddelio â phechod y byd, cynllun i gymodi dyn â Duw,

cynllun i sefydlu teyrnasiad y Duw byw yng nghalonau pobl o bob cenedl a gwlad.

Mae'r sesiwn yma'n canolbwyntio ar Atgyfodiad Iesu, fel mae Mathew yn cofnodi'r hanes, gyda'r ddwy Fair yn cyrraedd y bedd gwag yn gyntaf. Dyma ddigwyddiad a newidiodd fywydau'r disgyblion cyntaf yn llwyr, digwyddiad sy'n newid llawer o fywydau heddiw, a hynny drwy'r byd cyfan.

Cyflwyno'r Thema

1. Trafodaeth

Bydd angen darn mawr o bapur a phinnau ffelt. Rhannwch y papur yn ddwy golofn, un golofn gyda'r teitl 'OFN' a'r llall gyda'r teitl 'HAPUS'. Gofynnwch i'r grŵp i restru'r pethau sy'n eu gwneud yn ofnus ac yna'r pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Oes gan un aelod o'r grŵp hanes personol i'w rannu am achlysur pan gawsant ofn mawr neu achlysur hapus iawn? (Byddai'n syniad i chi feddwl am esiampl personol hefyd.)

Esboniwch y byddwn yn cyfarfod â rhai o ffindiau Iesu a brofodd y ddau emosiwn yma ar ôl marwolaeth Iesu.

2. Yn fyw neu'n farw?

Bydd angen dau gerdyn ar gyfer pob pâr, un gyda'r gair 'FYW' arno, a'r llall gyda'r gair 'MARW' arno.

Esboniwch y byddwch yn darllen rhestr o enwau i'r grŵp a bod yn rhaid iddynt benderfynu a yw'r person yn 'FYW' neu'n 'FARW'. Y pâr cyntaf i ddangos y cerdyn cywir sy'n ennill y rownd. Cadwch sgôr a rhowch wobwr fechan i'r pâr buddugol.

- >> William Shakespeare – wedi marw
- >> Wayne Rooney – yn fyw
- >> Declan Donnelly – yn fyw
- >> Matt Damon – yn fyw
- >> Marilyn Monroe – wedi marw



Oed 11 - 14

Y Pasg: Y Daith Fawr

- >> Heath Ledger – wedi marw
 - >> Gordon Brown – yn fyw
 - >> Simon Cowell – yn fyw
 - >> Florence Nightingale – wedi marw
 - >> Madonna – yn fyw
- (Atebion yn gywir adeg argraffu!!)

Mae hanes y Pasg yn cynnwys hanes Iesu'n marw ar y groes ond yn dod yn ôl yn fyw ar ôl tri diwrnod – rhywbeth nad yw'r bobl enwog yma wedi llwyddo i'w wneud!

Darllen a deall y Beibl (Mathew 28:1-10)

Bydd angen Beiblau, taflen 9 ar gyfer pob pâr, tri darn o bapur, pinnau ffelt.

Eglurwch y byddwn yn ystyried hanes Atgyfodiad Iesu fel y cofnododd Mathew ef yn ei lyfr. Aeth Mair Magdalen a Mair arall at y bedd yn gyntaf a nhw oedd y rhai cyntaf i ddeall bod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw, a'i weld. Mae hyn yn briodol gan mai nhw'n dwy oedd wedi aros wrth y groes gydag ef a nhw oedd gyda Joseff wrth iddo osod Iesu yn y bedd.

1. Gofynnwch: fedrwch chi ddychmygu bod yn rhai o'r bobl gyntaf i weld Iesu yn fyw eto?

2. Darllenwch Mathew 28:1-10 gyda'ch gilydd cyn gofyn i'r grŵp i weithio drwy'r daflen yn dawel. Rhwch Feibl a thaflen i bawb neu rhannwch y grŵp yn barau. Esboniwch na fyddwch yn casglu'r papurau, felly cânt fod yn hollol onest wrth gyflwyno eu hatebion.

3. Casglwch bawb at ei gilydd am adborth. Ar y darnau papur, ysgrifennwch y geiriau 'Credw, Rhannu, Llawenydd'. Gofynnwch i'r bobl ifanc :

Credw: Beth mae Iesu am inni ei gredu amdano?
Rhannu: Beth mae Iesu am inni ei rannu gydag eraill amdano?

Llawenydd: Sut mae Iesu yn dy wneud di'n hapus, cynhyrfus, llawen?

4. Gorffennwch drwy ddweud fod yr Atgyfodiad wedi newid bywydau'r ddwy Fair yn llwyr. Mae marwolaeth ac atgyfodiad Iesu'n hanfodol bwysig i gynllun Duw i achub y byd. Mae'r atgyfodiad yn dangos fod Iesu wedi trechu marwolaeth, ac felly, nid marwolaeth yw'r diwedd i'w bobl.

Mae aberth Iesu ar y groes yn ei gwneud hi'n bosibl inni gael maddeuant i'n pechodau, ac am fod Iesu wedi atgyfodi, rydym yn medru cael bywyd newydd mewn perthynas newydd â Duw a Iesu. Mae bywyd pwy bynnag sy'n credu ac ymddiried yn Iesu yn cael ei drawsnewid – yn union fel bywydau'r ddwy Fair.

Gweddïau

Edrychwch ar y tri gair eto ac anogwch y bobl ifanc i weddïo dros rhywbeth sydd wedi eu taro o'r drafodaeth. Gallwch eu harwain gyda gweddi syml gan adael ychydig o amser iddyn nhw i weddïo yn dawel.

Credw: Arglwydd Iesu, helpa ni i gredu ynot ti fel y gwnaeth Mair. Mae rhai pethau'n anodd deall, ond dwi eisiau dy adnabod yn well.

Rhannu: Arglwydd Iesu, mae'n anodd rhannu'r hyn dwi'n ei gredu gyda fy ffrindiau. Plis nei di roi cyfle i mi siarad gyda... amdanat ti yr wythnos hon.

Llawenydd: Arglwydd Iesu, dwi mor falch dy fod wedi atgyfodi. Diolch am fy ngharu, diolch am farw ar y groes, diolch dy fod yn gwybod popeth amdanaf ac am gael bod yn bwysig i ti.

Gweithgaredd Ychwanegol

Beth am beintio wyau wedi'u berwi? Neu, gallwch gael pecyn o wyau bach i rannu wrth drafod pwy sydd wedi bwyta'r nifer fwyaf o wyau Pasg erioed.



Wythnos 3

Yn y sesiwn heddiw byddwn yn trafod hanes Cleopas a'i ffrind (ei wraig efallai), yn teithio'n ôl o Jerwsalem ar ôl gweld eu ffrind Iesu'n cael ei arestio a'i groeshoelio. Wrth gerdded adref i Emaus yn ddigalon mae dyn dieithr yn ymuno â nhw ac yn holi'r rheswm am eu digalondid. Ar ôl cyfnod yn sgwrsio, mae Cleopas yn gwahodd y dieithryn i gael swper gyda nhw, ac wrth i'r dyn dorri bara a diolch amdano, maen nhw'n sylweddoli eu bod yng nghwmni'r Arglwydd.

Mae Iesu'n esbonio wrth y ddau, gan gyfeirio at broffwydoliaethau'r Hen Destament, bod marwolaeth ac atgyfodiad y Meseia yn rhan o gynllun Duw ar eu cyfer. Mae fel petai llen yn cael ei godi oddi ar lygaid y ddau, ac wrth i Iesu ddiflannu o'u golwg, maen nhw'n cael eu llenwi gyda sicrwydd eu bod wedi gweld yr Arglwydd. Felly, i ffwrdd â nhw i Jerwsalem i ddweud wrth y disgyblion eraill eu bod nhw hefyd wedi gweld yr Iesu atgyfodedig.

Cyflwyno'r Thema

1. Bod yn fyw.....

Bydd angen papur, beiro a gwobr fechan.

Rhannwch y grŵp yn ddau dîm gyda phapur a beiro i bob tîm. Gofynnwch iddynt ysgrifennu cymaint o eiriau ag sy'n bosibl i ddisgrifio'r hyn mae'n ei olygu i fod yn fyw, e.e. dwi'n anadlu, dwi'n medru rhedeg, gweld, siarad..., dwi'n medru darllen, dawnio, chwarae'r piano

Ar ôl dwy funud gofynnwch i bob grŵp i rannu'r hyn sydd ganddynt ar eu papurau. Rhowch y wobr i'r syniad gorau neu'r rhestr hiraf.

Esboniwch y byddwn yn gweld yn y darlleniad beth oedd darganfod ei fod wedi atgyfodi yn ei olygu i ffrindiau Iesu. (Gwnewch yn siŵr fod pawb yn y grŵp yn deall ystyr y gair 'atgyfodi'.)

2. Hollol ryfeddol

Dangoswch y rhestr o ffeithiau rhyfeddol sydd ar y Gdd i'r grŵp a'i darllen.

Pa ffeithiau ydy'r rhai mwyaf rhyfeddol? Anogwch y bobl ifanc i rannu unrhyw wybodaeth bellach sydd ganddynt, gan gofio'n arbennig am y ffaith olaf.

Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw wedi dod ar draws ffaith mor rhyfeddol nes eu bod ar dân eisiau rhannu'r wybodaeth gyda rhywun arall. Tybed a oes un ohonynt wedi teimlo fel hyn am y ffaith anhygoel fod Iesu wedi atgyfodi o'r bedd? Esboniwch y byddwn yn clywed ymateb dau o ffrindiau Iesu wrth iddyn nhw sylweddoli bod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.

Darllen a deall y Beibl (Luc 24:13-35)

Bydd angen Beiblau a tri darn o bapur gyda marc cwestiwn ar bob un. Dylech adael lle ar y papur i ysgrifennu.

Darllenwch adnodau 13 – 29 gyda'ch gilydd cyn crynhoi'r darlleniad yn eich geiriau eich hun. Gosodwch y marciau cwestiwn ar y bwrdd o flaen y grŵp. Roedd tri pheth yn poeni Cleopas a'i ffrind:

1. Iesu yw'r Meseia. *Ysgrifennwch hyn wrth ymyl y marc cwestiwn cyntaf.*

Pam fod Cleopas a'i ffrind yn credu mai Iesu oedd y Meseia? *Darllenwch adnod 19, 21.*

Roedd Iesu'n siarad ac yn ymddwyn fel proffwyd ac roedden nhw'n credu mai ef oedd yr un a fyddai'n achub Israel.

2. Mae Iesu wedi marw. *Ysgrifennwch hyn wrth ymyl yr ail farc cwestiwn.*

Roedden nhw ar y ffordd adref o Jerwsalem, ar ôl gweld Iesu'n cael ei groeshoelio. Sut oedden nhw'n teimlo nawr? Mae'r un yr oeddent yn credu oedd y Meseia yn gadael i'r awdurdodau ei gymryd fel hyn. *Darllenwch adnod 17 a 20.*

3. Ble mae corff Iesu? *Ysgrifennwch hyn wrth y trydydd marc cwestiwn.*



Beth ddywedodd y gwagedd wrthynt?
Darllenwch adnodau 22, 23, 24.

Gofynnwch i'r grŵp i ddarllen adnod 27 i ddarganfod beth wnaeth Iesu i ateb cwestiynau Cleopas a'i ffrind. *Mae'n esbonio'r hyn a ddywedodd y proffwydi am y Meseia.*

1. Tynnwch sylw'r grŵp at y marc cwestiwn cyntaf.

Beth ddywedodd y proffwydi am y Meseia? Atgoffwch y bobl ifanc am ystyr y gair Meseia- 'yr un yr oedd Duw wedi addo y byddai'n dod i achub ei bobl'.

Trowch i Eiseia 61 a darllenwch adnodau 1 a 2. Ydy'r geiriau yma'n ddisgrifiad da o Iesu?

2. Tynnwch sylw'r grŵp at yr ail farc cwestiwn. Beth ddywedodd y proffwydi am farwolaeth y Meseia? Trowch i Eiseia 53 a darllenwch adnodau 3, 5, 7, 8, 9. Ydy'r geiriau yma'n disgrifio beth ddigwyddodd i Iesu?

3. Tynnwch sylw'r grŵp at y trydydd marc cwestiwn. Beth ddywedodd y proffwydi y byddai'n digwydd ar ôl i'r Meseia farw? Darllenwch Salm 16:10, 11; Eiseia 52:13. Ydy'r geiriau hyn yn disgrifio beth ddigwyddodd i Iesu?

Darllenwch adnodau 30-35

❖ Pryd sylweddolodd y ddau pwy oedd gyda nhw? Adnod 31. Oes gan y bobl ifanc syniad am gysylltiad rhwng y digwyddiad hwn a rhyw ddigwyddiad arall cyn marwolaeth Iesu? *Iesu'n torri bara yn ystod y Swper Olaf.*

❖ Sut oedden nhw'n disgrifio'r teimlad o fod gydag Iesu? Adnod 32

❖ Beth wnaethon nhw wedyn? Adnod 33-35 Roedd Iesu wedi dysgu'r ddau beth oedd cynllun Duw yn hyn ond wrth dorri'r bara roedd eu calonnau wedi cael eu cyffwrdd hefyd. Nawr, roedden nhw ar frys i gael mynd yn ôl at y disgyblion i sôn wrthynt am ymddangosiad Iesu. Diflannodd y dryswch a'r tristwch.

Gweddïau

Rhowch ddarn o bapur a phinnau ffelt i bawb a gofynnwch iddynt dynnu llun i bortreadu'r dywediad 'calon ar dân.' Dyma beth oedd profiad Cleopas a'i ffrind o fod yng nghwmni'r Iesu, yn gwranddo arno'n esbonio'r gair ac yn ei weld yn torri'r bara.

Sut allwn ni dreulio amser yng nghwmni'r Iesu? Wrth ddarllen y Beibl, wrth weddio, wrth wrando ar Gristnogion eraill yn siarad am eu profiadau, wrth wrando ar bobl yn esbonio Gair Duw wrthym.

Sut deimladau sydd yn ein calonnau wrth feddwl fod Iesu wedi marw ar y groes i gymryd ein pechodau i ffwrdd? Sut deimladau sydd gennym wrth feddwl fod Iesu'n byw yn y nef gyda'i Dad ac yn cynnig paratoi lle yn y nef ar ein cyfer ninnau hefyd?

Efallai yr hoffai'r bobl ifanc dynnu llun i bortreadu eu teimladau. Treuliwch amser yn diolch i Dduw am ddanfon Iesu i'r byd i ddelio gyda'n pechod, gan ddiolch am y cynnig o fywyd newydd, wrth geisio cymorth yr Ysbryd Glân i ddeall ac ymddiried yn Iesu.

Gweithgaredd ychwanegol

Beth am chwarae un o'r gemau o'r Adran 6-11 oed am ychydig o hwyl?



- Darllenwch Mathew 28:1-10 a chofnodwch eich atebion

Pa gyngor gafodd y ddwy Mair?

Credu


Mae'r angel yn eu hatgoffa o addewid Iesu.
Edrychwch yn adnod 6 am yr addewid?
Beth yw eich ymateb i'r Atgyfodiad? Ydy'n hawdd
neu'n anodd i gredu? Pam?

Rhannu

Edrychwch yn adnod 7 i weld gyda phwy mai'r
ddwy Mair i fod rhannu'r ffaith bod Iesu wedi
atgyfodi. Sut ydych chi'n teimlo am rannu hanes
atgyfodiad Iesu gydag eraill? Ydy'n hawdd neu'n
anodd? Pam?

Llawenhau!





Mae Iesu'n fywl! Mae'r angel yn cyfarch y
ddwy Mair gyda'r gair Groeg am 'Llawenhau!'
Newidiodd bywydau'r ddwy am byth ar ôl
cyfarfod â'r Iesu atgyfodedig.
Ydych chi wedi cyfarfod â Iesu? Ydych chi'n
teimlo llawenydd wrth ei adnabod? Ydy'n
hawdd neu'n anodd i adeiladu perthynas
gydag ef?





Atodiad 1


Y Pasg: Y Daith Fawr





Atodiad 2



Y Pasg: Y Daith Fawr







Atodiad 3

Y Pasg: Y Daith Fawr





Atodiad 4 Y Pasg: Y Daith Fawr





Atodiad 5 Y Pasg: Y Daith Fawr

"Ewch i'r pentref acw a gwelwch
asen a'i hebol gyda hi. Dewch â
nhw yma i mi.

Os bydd rhywun yn holi,
dywedwch 'Mae'r Arglwydd
eu hangen nhw; bydd yn eu
hanfon yn ôl wedyn.'

Dyma nhw'n taflu eu cotiau
arnyn nhw, a dyma Iesu'n
eistedd ar gefn yr ebol.

Dechreuodd y dyrfa daflu eu
cotiau fel carped ar y ffordd o'i
flaen, neu dorri dail o'r coed a'u
lledu ar y ffordd.


Roedd y dyrfa yn gweiddi,
"Hosanna i Fab Dafydd!"

Roedd Jerwsalem mewn cynnwrf
pan aeth Iesu i m" Pwy ydy
hwn?" meddai rhai.



Atodiad 6


Y Pasg: Y Daith Fawr





Atodiad 7

Y Pasg: Y Daith Fawr



Y Cyfnewidwyr Arian

Roedd pob Iddew yn gorfod talu Treth y Deml, sef tua hanner sicl, adeg y Pasg. Roedd sawl math o arian yn cael ei ddefnyddio yn Israel ond dim ond sicl y cysegr, hanner sicl Galilea neu sicl Tyrean a fyddai'n cael eu derbyn. Roedd y cyfnewidwyr arian yn newid unrhyw arian am y tri derbyniol, ond yn codi tâl am wneud hynny. Doedd dim byd o'i le gyda hyn, ond roedd rhai o'r cyfnewidwyr yn codi tâl cyfwerth â chyflog dau ddiwrnod ar yr Iddewon cyffredin a ddaeth yn ffyddlon i'r Deml i addoli.

Y Dall a'r Cloff

Doedd pobl anabl ddim yn cael gwasanaethu fel offeiriaid yn ôl deddf Moses (Lefiticus 21:16). Aeth y brenin Dafydd ymhellach, gan wahardd pobl ddall a chloff o unrhyw le yn y Deml (2 Samuel 5:8).

Yr Offeiriaid a'r Athrawon

Roedd yr Offeiriaid ac Athrawon y Gyfraith yn ceisio helpu'r Iddewon i gadw gorchmynion Duw. Yn y gorffennol, os byddai pobl Dduw yn anufudd, byddent yn cael eu cosbi. Nawr, roeddent o dan lywodraeth y Rhufeiniaid ac os oeddent am fod yn rhydd unwaith eto, roedd hi'n hanfodol bwysig eu bod yn cadw'r Gyfraith, offrymu aberthau perffaith a thalu trethi haeddiannol i Dduw. Ond – roedd cadw'r Gyfraith wedi dod yn bwysicach na byw i blesio Duw.

Y Gwerthwyr

Pan oedd pobl yn ymweld â'r Deml roedd rhaid iddynt fynd ag offrwm i'w aberthu – colomen neu oen. Roedd yn rhaid i'r offrwm fod yn berffaith, heb unrhyw nam arno. Roedd anifeiliaid amherffaith yn cael eu gwrthod a byddai'n rhaid prynu anifail neu golomen arall gan un o'r gwerthwyr yng nghyntedd y Deml. Roedd rhai o'r gwerthwyr yn codi deg gwaith y pris arferol am oen neu golomen.

Plant

Nid oedd gan blant le amlwg o fewn y gymdeithas Iddewig.

Fel arfer, byddent yn cael eu gwahardd o'r Deml.



Ar y Ffordd i Emaus (Luc 24)

¹³ Yr un diwrnod, roedd dau o ddilynwyr Iesu ar eu ffordd i bentref Emaus, sydd ryw saith milltir o Jerwsalem. ¹⁴ Roedden nhw'n sgwrsio am bopeth oedd wedi digwydd. ¹⁵ Wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen dyma Iesu'n dod atyn nhw a dechrau cerdded gyda nhw. ¹⁶ Ond doedden nhw ddim yn sylweddoli pwy oedd e, am fod Duw wedi eu rhwystro rhag ei nabod ef.

¹⁷ Gofynnodd iddyn nhw, "Am beth ydych chi'n dadlau gyda'ch gilydd?" Dyma nhw'n sefyll yn stond. (Roedd eu tristwch i'w weld ar eu hwynebau.) ¹⁸ A dyma Cleopas, un ohonyn nhw, yn dweud, "Mae'n rhaid mai ti ydy'r unig berson yn Jerwsalem sydd ddim yn gwybod beth sydd wedi digwydd y dyddiau diwetha' yma!"

¹⁹ "Gwybod beth?" gofynnodd.

"Beth sydd wedi digwydd i Iesu o Nasareth," medden nhw. "Roedd yn broffwyd i Dduw ac yn siaradwr gwych, ac roedd pawb wedi ei weld yn gwneud gwyrthiau rhyfeddol. ²⁰ Ond dyma'r prif offeiriaid a'r arweinwyr crefyddol eraill yn ei arestio a'i drosglwyddo i'r Rhufeiniaid i gael ei ddedfrydu i farwolaeth, a'i groeshoelio. ²¹ Roedden ni wedi gobeithio mai ef oedd y Meseia a fyddai'n ennill rhyddid i Israel. Digwyddodd hynny echdoe - Ond mae yna fwy... ²² Yn gynnar y bore 'ma dyma rai o'r merched oedd gyda ni yn mynd at y bedd lle'r oedd ei gorff wedi cael ei osod, ²³ ond doedd y corff ddim yno! Roedden nhw'n dweud eu bod nhw wedi gweld angylion, a bod y rheiny wedi dweud wrthyn nhw fod Iesu'n fyw. ²⁴ Felly dyma rai o'r dynion oedd gyda ni yn mynd at y bedd i edrych, ac roedd popeth yn union fel y dywedodd y gwragedd. Ond welon nhw ddim Iesu o gwbl."

²⁵ "Rydych chi mor ddwl!" meddai Iesu wrth y ddau oedd e'n cerdded gyda nhw, "Pam ydych chi'n ei chael hi mor anodd i gredu'r cwbl ddywedodd y proffwydi? ²⁶ Maen nhw'n dweud fod rhaid i'r Meseia ddiodeff fel hyn cyn iddo gael ei anrhydeddu!" ²⁷ A dyma Iesu'n mynd dros bopeth ac yn esbonio'r hyn oedd Moses a'r proffwydi eraill wedi ei ddweud amdano yn yr ysgrifau sanctaidd.

²⁸ Pan oedden nhw bron â chyrraedd pen y daith, dyma Iesu'n dweud ei fod e'n mynd yn ei flaen. ²⁹ Ond dyma nhw'n erfyn yn daer arno: "Tyrd i aros gyda ni dros nos; mae'n mynd yn hwyr." Felly aeth i aros gyda nhw.

³⁰ Pan oedden nhw'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta, cymerodd dorth o fara, ac adrodd gweddi o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu iddyn nhw. ³¹ Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli mai Iesu oedd gyda nhw, a'r foment honno, diflannodd o'u golwg. ³² Dyma nhw'n dweud wrth ei gilydd, "Roedden ni'n teimlo rhyw wefr, fel petai'n calonnau ni ar dân wrth iddo siarad â ni ar y ffordd gan esbonio beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud!"





³³ Ymhen dim o amser roedden nhw ar eu ffordd yn ôl i Jerwsalem. Dyma nhw'n dod o hyd i'r un ar ddeg disgybl a phawb arall gyda nhw, ³⁴ a'r peth cyntaf gafodd ei ddweud wrthyn nhw oedd, "Mae'n wir! Mae'r Arglwydd wedi dod yn ôl yn fyw. Mae Simon Pedr wedi ei weld!" ³⁵ Yna, dyma'r ddau yn dweud beth oedd wedi digwydd iddyn nhw ar eu taith, a sut wnaethon nhw sylweddoli pwy oedd Iesu wrth iddo dorri'r bara.

(beibl.net)





Atodiad 9

Y Pasg: Y Daith Fawr





Atodiad 10
Y Pasg: Y Daith Fawr



HOSANNA



Gwasanaeth Teuluol Y Pasg: Y Daith Fawr

Gwasanaeth Teuluol - Y Pasg

Tyrd i Ddathlu!

Mae'r gwasanaeth yma wedi ei ysgrifennu gan y Dr Owain Edwards, Coleg y Bala. Bydd cyfle i'r plant gymryd rhan yn ystod y gwasanaeth drwy gyflwyno ychydig o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn ystod gwersi'r Ysgol Sul. Bydd angen penderfynu ymlaen llaw pa rannau sydd fwyaf addas o fewn y Gwasanaeth ar gyfer cyflwyniadau'r plant. Hefyd, bydd angen paratoi gweddïau ymlaen llaw. Mae'r gweddïau yn dilyn hanes y croeshoeliad, felly byddai gweddïau o ddiolch a chyffes yn addas.

Ceir rhestr o ganeuon addas ar ddiwedd y gwasanaeth. Beth am geisio cael rhai o'r plant /pobl ifanc i gynorthwyo i gyfeilio yn ystod y gwasanaeth?
Mae cyflwyniad *PowerPoint* o'r Gwasanaeth ar gael ar y Gdd.

Defosiwn:

Gair o groeso, Gweddi, Cân/Emyn

Cyflwyno'r thema: Amser i Ddathlu

Bydd angen amrywiaeth o gardiau cyfarch i'w dangos.

Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n hoffi dathlu diwrnodau arbennig, ee Pen-blwydd, Nadolig, Priodas a.y.b. Dangoswch y cardiau a thrafodwch pam fod y dyddiau hyn yn bwysig ac arbennig.

Eglurwch ein bod yn cofio ac yn dathlu'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes y byd heddiw! Ydy hyn yn gor-ddweud? Wel, gobeithio erbyn diwedd y gwasanaeth, y byddwn i gyd yn cytuno fod digwyddiadau'r Pasg wedi newid ein byd yn gyfan gwbl ac yn gallu newid ein bywydau hefyd! Dyma ddigwyddiad gwerth ei ddathlu go iawn.

Cyflwyniad 2: Tristwch Pedr

Mae lluniau ar gyfer y cyflwyniad ar gael ar y GDd.

Dydy'r stori ddim yn dechrau gyda dathlu ond gyda thristwch. Yn arbennig i Pedr. *Dangoswch y llun o Pedr.*

Roedd Pedr yn un o ffrindiau gorau Iesu - un o'r disgyblion. Roedd wedi treulio tair blynedd gydag Iesu, yn teithio o dref i dref, yn ei wyllo'n iacháu pobl sâl, yn gwranddo arno'n esbonio pethau mawr am Dduw. Addawodd Pedr i aros yn driw i Iesu am byth.

Pam felly fod Pedr yn edrych mor drist?

Wel, i ddechrau, roedd Pedr wedi gwadu ei fod hyd yn oed yn adnabod Iesu. *Adroddwch hanes Pedr yn gwadu Iesu'n fras.*

Ydych chi wedi siomi rhywun erioed? Sut oeddech chi'n teimlo? Beth am Pedr? Fel hyn mae Luc yn dweud wrthym: *Darllenwch yr adnodau canlynol o Luc 22*

⁶¹ Dyma'r Arglwydd Iesu yn troi ac yn edrych yn syth ar Pedr. Yna cofiodd Pedr beth roedd yr Arglwydd wedi ei ddweud: "Byddi di wedi gwadu dy fod yn fy nabod i dair gwaith cyn i'r ceiliog ganu."

⁶² Aeth allan yn beichio wylo.



Gwasanaeth Teuluol Y Pasg: Y Daith Fawr

Dychmygwch felly sut oedd Pedr yn teimlo wrth glywed sŵn yr hoelion yn mynd trwy draed a dwylo'r Iesu. *Os yw'n briodol, gellir cael rhywun i daro hoelion i mewn i ddarn o bren i greu effaith. Tra bod hyn yn digwydd, darllenwch Marc 15:22-39.*

Sut oedd Pedr yn teimlo o weld ei ffrind a'i arwr Iesu yn marw ar y groes? Doedd Pedr heb ddeall yn iawn eto fod Iesu'n gorfod marw i gymryd y gosb am y pethau drwg yr oedd ef wedi eu gwneud. Oherwydd ei gariad, roedd Iesu'n cymryd y gosb am bethau drwg Pedr, ond nid yn unig Pedr, roedd yn cymryd y gosb drosom ninnau hefyd. Dyma faint ei gariad tuag atom.

Gweddïau

Cân addas:

Beth am 'Sori Dduw' (Rhif 29, Tyrd i Ddathlu) neu 'Dyma gariad fel y moroedd' (205 Caneuon Ffydd)?

Cyflwyniad 3: Llawenydd Pedr

Bydd angen cael gêm o Jenga sydd wedi ei osod yn dŵr yn barod cyn dechrau'r gwasanaeth. Hefyd yr adnod o 1 Corinthiaid 15 :17, wedi'i ysgrifennu ar ddarn o bapur mawr: ' Ac os na chododd y Meseia Iesu, mae beth 'rydych chi'n ei gredu'n wastraff amser – 'rydych chi dal yn gaeth i'ch pechodau'.

Ond wrth gwrs nid dyna ddiwedd y stori. Mae darn hanfodol o hanes y Pasg eto i ddod.

Gwahoddwch ddau neu dri o'r plant i'ch cynorthwyo, gan eu gwahodd i dynnu blociau allan o'r tŵr. Yna, cymerwch floc hanfodol o'r tŵr er mwyn ei ddymchwel.

Eglurwch fod Atgyfodiad Iesu'n hanfodol i'r ffydd Gristnogol - yn debyg i'r bloc yr oedd yn dal y tŵr i fyny.

Roedd Paul yn un o arweinwyr y Cristnogion cynharaf. Ysgrifennodd sawl llythyr at eglwysi gwahanol i'w helpu i ddeall pam fod Iesu wedi marw ac wedi ei atgyfodi. Dyma beth ddywedodd am atgyfodiad Iesu yn ei lythyr at y Cristnogion yn ninas Corinth: *dangoswch yr adnod wrth i chi ei darllen.*

'Ac os na chododd y Meseia Iesu, mae beth 'rydych chi'n ei gredu'n wastraff amser - rydych chi dal yn gaeth i'ch pechodau.'

Wrth ichi esbonio'r adnod, rhwygwch y papur i fyny.

GWASTRAFF AMSER! Heb yr atgyfodiad, mae Paul yn dweud bod ein ffydd yn wastraff amser! Buasem ni gyd wedi gallu aros yn ein gwelyau bore yma, yn hytrach na thrafferthu dod i'r capel! Mae'n hynod bwysig cael gwybod a yw'r atgyfodiad yn wir!

Felly, yn ôl at Pedr. Mae'n fore Sul ac mae Pedr wedi cael penwythnos digalon iawn yn meddwl am Iesu'n marw a'r ffaith ei fod wedi gwadu hyd yn oed ei adnabod. Ond beth ddigwyddodd nesaf?

Darllenwch Luc 24 1-10 (mae cyfieithiad beibl.net a lluniau pwrpasol ar y cyflwyniad PowerPoint).

A glywsoch chi newyddion da ryw dro a oedd mor anhygoel fel nad oeddech yn ei gredu? *Rhowch esiampl bersonol (e.e. pan glywais fod fy nhîm pêl-droed - Wrecsam - wedi curo Arsenal yng Nghwpan yr FA!).*

Roedd y merched wedi bod at y bedd a gweld ei fod yn wag, roeddent wedi cael clywed gan yr Angylion fod Iesu'n fyw!

Ond beth oedd ymateb y disgyblion o glywed yr hanes?

Darllenwch adnodau 11 a 12:



Gwasanaeth Teuluol Y Pasg: Y Daith Fawr

“¹¹ Ond doedd yr apostolion ddim yn eu credu nhw - roedden nhw'n meddwl fod y stori yn nonsens llwyr”

NONSENS LLWYR! Methu credu'r peth - merched yn clebran! Ond beth am Pedr?

“¹² Ond dyma Pedr yn rhedeg at y bedd i edrych. Plygodd i edrych i mewn i'r bedd a gweld y stribedi o liain yn gorwedd yno'n wag. Gadawodd y bedd yn methu'n lân a deall beth oedd wedi digwydd.”

Roedd Pedr eisiau gweld gyda'i lygaid ei hun- felly dyma fo'n rhedeg at y bedd. Dychmygwch beth oedd yn ei feddwl wrth iddo redeg at y bedd? “*All hyn fod yn wir? Ydi Iesu wedi atgyfodi? Gobeithio!*”

Wrth weld y bedd gwag, doedd Pedr dal ddim yn deall yn iawn, ond roedd gobaith yn dechrau codi yn ei galon. Roedd yn rhaid iddo ddisgwyl tan y noson honno i gael gwybod go iawn beth oedd wedi digwydd i Iesu. Ydych chi wedi gorfod disgwyl am newyddion pwysig, ee. canlyniad arholiad, canlyniad gêm bêl-droed?

Y noson honno, tra'r oedd y disgyblion yn eistedd gyda'i gilydd, daeth Iesu atynt.

Darllenwch Ioan 20:19-23: “Roedd y disgyblion mor hapus pan welon nhw'r Arglwydd.”

Gwelodd Pedr yr Iesu â'i lygaid ei hun - doedd dim amheuaeth, roedd Iesu yn fyw!

Sut oedd Pedr yn teimlo rŵan? *Disgrifiwch ei deimladau* – nid oedd angen anobeithio, bywyd newydd, maddeuant!

Roedd Pedr yn gwybod rŵan ei fod yn gallu ymddiried yn yr Iesu, roedd popeth a ddywedodd yn wir. Roedd ganddo reswm i ddathlu!

Cân:

'*A yw Duw yn farw*' (Rhif 1 – Tyrd i Dathlu) neu '*Pan rwy'n cofio*' (Rhif 27 - Tyrd i Ddathlu)

I Orffen:

Ydyn ni wedi profi'r hapusrwydd yna o sylweddoli fod Iesu'n fyw, fel y gwnaeth Pedr?

Gan fod Iesu wedi atgyfodi, rydym yn gallu ymddiried yn llwyr ynddo.

A gan ei fod yn fyw, y mae ef yma gyda ni heddiw, yma i gynnig ei fywyd a'i faddeuant i ni. Yma i gynnig perthynas â'r Duw byw, dim ond i ni gredu ynddo ac ildio ein bywydau iddo.

Doedd bywyd Pedr byth yr un fath ar ôl gweld yr Iesu Atgyfodedig, ac nid yw ein bywydau ni'n aros yr un peth wrth i ni ei gyfarfod chwaith.

Gweddi

Emyn

Awgrymiadau am Emynau:

Caneuon Ffydd: 408, 414, 416, 422, 555, 562, 564.

Tyrd i Ddathlu: 1, 7, 8, 10, 18.

Y Cyntaf a'r Olaf: 4, 5, 12.